Arholiadau Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod Prifysgol Aberystwyth
Chwefror 2025

Addysg ac Astudiaethau Plentyndod

Amser a ganiateir: 1.5 awr

Atebwch 2 gwestiwn

1. Meddai undeb athrawon NASUWT, yn eu harolwg o athrawon, fod "37% of respondents have experienced physical abuse or violence from pupils in the last 12 months." Trafodwch yn feirniadol pam y gallai hyn ymddangos fel problem gynyddol ac ystyriwch dair ffordd y gallai ysgolion ddechrau mynd i'r afael â'r mater.

2. Mewn profion addysg rhyngwladol diweddar (profion PISA) perfformiodd ysgolion yng Nghymru "significantly below the average across OECD countries and significantly below those seen across the rest of the UK" (Institute for Fiscal Studies, 2024). Dadansoddwch pam y gallai hyn fod yn wir, a sut y gellir mynd i'r afael â'r mater, os oes angen mynd i'r afael ag ef mewn gwirionedd.

3. "Thousands of fines issued to parents in Wales for not sending their children to school" (Wales Online, Jan 2024). Sut ddylai ysgolion, a'r llywodraeth, fynd i'r afael ag absenoldeb o ysgolion?

4. Sut dylai datblygiad deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (Gen AI) effeithio ar y ffordd y mae ysgolion yn dysgu?

5. Dadleuir bod y flwyddyn ysgol yn seiliedig ar galendr amaethyddol hen ffasiwn. Beth yw'r dadleuon o blaid ac yn erbyn newid calendr yr ysgol ac addasu amser a hyd gwyliau ysgol.

6. Trafodwch yn feirniadol a yw incwm y cartref yn effeithio ar ddatblygiad plant yn y blynyddoedd cynnar.

7. "Girls outperform boys across all education phases but [...] the gender gap is unique in narrowing during the primary school phase – before widening again during secondary school" (Education Policy Institute, 2024). Trafodwch yn feirniadol y rhesymau posibl dros hyn a sut y dylai ysgolion ymateb.

8. A yw gwisg ysgol yn annog cynhwysiant neu atal amrywiaeth? Gwerthuswch y dadleuon o blaid ac yn erbyn y defnydd o wisg ysgol.